
# Y BIGWN

CYF. 34 RHIF 10 CHWEFROR 2023 *Papur Bro Dinbych* *Pris £1*

## Gethin yn gwehyddu ei hud



Gethin a Francis Moore yn y felin—tud 12

## Mwy o dai yn Ninbych



Hanes ar dudalen 19

## Cystadleuaeth Rholio'r Gasgen ar Ddiwrnod San Steffan yn dychwelyd

tud 17







Gaynor Morgan Rees gyda Magi Ann—tud 16

# Diwrnod San Steffan



## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
**Stan Lyall 813659**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Nerys Ann Roberts
01745 814950

**GOLYGYDDION:**
Erfyl Williams (814832)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (813387)
Martha Cordiner (813387)

**YSGRIFENNYDD**
Sian Rogers
siani77.sr@gmail.com

**TRYSORYDD**
Llifon Jones
Sŵn y Nant, 31 Y Maes,
Dinbych
LL16 3JR
llifonjones9@gmail.com

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Rhian Williams (816251)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
gwybod@ybigwn.cymru

Cyhoeddwyd gan:
Gymdeithas y Bigwn
Cysodwyd gan Hywel Evans
hywel@hywel1310.plus.com

ac Argraffwyd gan
Wasg Helygain

'Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'

CYMRAEG

**Golygydd Mis Chwefror**
**Morgan Cordiner**

# Gair gan y Golygydd

## Cyfarchion

Mae hi wedi bod yn gyfnod hynod gyffrous i ni fel Côr Dyffryn Clwyd. Wedi ni ddychwelyd o Qatar cawsom ychydig o wythnosau i orffwyso wedi'r holl ganu a theithio. Cafodd y côr wahoddiad i ganu ar raglen Dechrau Canu Dechrau Canmol yma yn Ninbych ar gyfer rhaglen arbennig dros gyfnod y Nadolig. Yn ogystal â hyn aeth rhai aelodau i gartref Plas Gwyn i ganu i'r henoed ac wedyn cydganu a cherdded tref Rhuthun gyda Meibion Merchen gan ganu carolau yn y tafarndai ac ar y strydoedd.

Mae cyfnod hynod gyffrous o'n blaenau fel côr. Byddwn yn canu mewn llu o gyngherddau dros y flwyddyn yn ogystal â chael trip arall dros y lli. Ond nid i Qatar y tro hwn, i Iwerddon er mwyn cystadlu yn yr Ŵyl Ban Geltaidd yn erbyn llu o gorau a phartïon eraill o Gymru a gweddill gwledydd Celtaidd y byd. Felly cofiwch edrych allan amdanom dros y flwyddyn hon gan ddilyn ein hanturiaethau fel côr ar y cyfryngau cymdeithasol.

Rydym o hyd yn edrych am aelodau newydd, felly croeso i unrhyw un ymuno.

*Martha Cordiner*



Penblwydd hapus iawn i Elen Wyn fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 4 oed ar 19 Chwefror. Cariad mawr gan Dad a Mam a'r teulu i gyd xx

## "Y Gŵr a Ddyfeisiodd Brydain"

Dyna fydd testun yr Athro Huw Pryce wrth iddo gyflwyno darlith am Humphrey Llwyd yn Eirianfa ar brynhawn Sadwrn, Mawrth 4ydd, i Gymdeithas Hanesyddol Sir Ddinbych.
Hon fydd Darlith Goffa Frank Price Jones y Gymdeithas eleni wrth iddi ailgydio mewn cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb ar hyd a lled yr hen sir - y tro cyntaf ers y pandemig - a thraddodir hi yn Saesneg gan yr Athro Huw Pryce.
Mae mynediad am ddim i'r cyfarfod hwn, a gynhelir am 2.30pm, a chroeso i unrhyw un ei fynychu.
Bydd cyfle i ymuno â'r gymdeithas yn ystod y cyfarfod.
Cysylltwch â Mrs Lucy Williams, yr Ysgrifennydd, ar 01824 704880 am ragor o wybodaeth.

## Dyddiadur

**Nos Sadwrn, Chwefror 11eg.**
Cwmni Frân Wen yn cyflwyno Croen Dena yn Theatr Twm o'r Nant am 7.30yh

**Nos Fercher, Mawrth 1af.**
Cwmni Bara Caws yn Theatr Twm o'r Nant

**Nos Sadwrn, Mawrth 11eg.**
Tic Toc
Sioe Gerdd Ddwyieithog yn Theatr Twm o'r Nant

Tocynnau gan Gaynor Morgan Rees 01745 812349 ac o Siop Clwyd 01745 813431

**Dyddiad cau Y BIGWN mis Mawrth**
**Pob dim i gyrraedd e-bost**
**Y Bigwn - gwybod@ybigwn.cymru erbyn**
**Chwefror 17**



## Y Gymdeithas Gymraeg

Bu'n gyfnod o newidiadau yn hanes y Gymdeithas.
Trefnwyd noson efo'r Parch. John Owen, Rhuthun, ar gyfer dechrau Rhagfyr ond fe'i gohiriwyd oherwydd triniaeth deintyddol (triniaeth na ddigwyddodd yn y diwedd).
Yna, bu'n rhaid ail-ohirio yn nes at y Nadolig oherwydd y tywydd.
Bwriadwyd cynnal y noson ar Ionawr 20fed, rhwng y cyfarfodydd oedd eisoes wedi eu trefnu ar gyfer Ionawr a Chwefror.
Yna, pan oedd siaradwraig mis Ionawr yn gorfod tynnu yn ôl oherwydd salwch aelod agos o'i theulu, daethpwyd â'r cyfarfod gohiriedig ymlaen a chael noson arbennig o ddifyr efo'r Parch. John Owen ar Ionawr 6ed yn traethu ar y pwnc "Celwydd Gola".
Cyflwynwyd Y Parch. John Owen gan Dilwyn Jones yn absenoldeb Mair Spencer oherwydd salwch. Dilwyn hefyd oedd yn diolch i Mr Owen ac i nifer a fu'n paratoi'r baned yn cynnwys Gaynor Morgan Rees, Gwyneth Kensler, Berwyn ac Olwen Roberts, Dorothy Bartley a Carys Williams.
Edrychwn ymlaen at ein cyfarfod nesaf ar Chwefror 3ydd sef noson gartrefol efo Nerys Ann Roberts – Festri'r Fron am 7.
Yr ydym yn anfon ein cofion at nifer o'r aelodau sydd ddim wedi bod yn rhy dda yn ddiweddar a'n cydymdeimlad at sawl aelod sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn y cyfnod diweddar hefyd.


DILWYN JONES, Ysgrifennydd.

PyBj



GWAITH SAER PEN-YBRYN Cyf
*Arbenigwyr Gwaith Coed a Lloriau*
Gwaith coed i gyfarfod â'ch holl ofynion
Ffôn:01745 815481 Facs:01745 814332
e-bost:mail@penybrynjoinery.co.uk

# Cylch Llenyddol Glannau Clwyd



Elfyn Llwyd, y cyn Aelod Seneddol a Bar Gyfreithiwr, ceidwad colomennod (arobryn!), Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth erbyn hyn, raconteur, a llawer iawn mwy, ddaeth atom i'n diddanu yng nghyfarfod cyntaf y Cylch yn 2023.

A dyna noswaith ddifyr a gawsom yn ei gwmni. Dywedodd mai dau brif ddiddordeb fu ganddo erioed, sef y Gyfraith a Gwleidyddiaeth. Ac fe gafodd fwynhau gyrfa yn y ddau fyd gan iddo astudio'r gyfraith yn Aberystwyth a dod yn gyfreithiwr yng Ngwynedd (ac yn fargyfreithiwr yn ddiweddarach) cyn cael ei ethol i fod yn Aelod Seneddol dros Feirionnydd Nant Conwy yn gynnar yn y 90au. Bu yn San Steffan am 23 o flynyddoedd, tan 2015, ac yn Arweinydd Grŵp Plaid Cymru yno am 18 ohonynt. Cawsom wybod ganddo mai geiriau doeth ei dad, 'os na fydd gryf, bydd gyfrwys' fu'n sylfaen i'w yrfa lwyddiannus yno ynghyd â'r cyngor, gan Dafydd Wigley hefyd, i fod yn barod i gydweithio efo ASau o'r holl bleidiau eraill er mwyn cael y maen i'r wal. A thrwy hynny, llwyddodd i gael sawl cyfraith bwysig a blaengar ar y llyfr statud, yn cynnwys cyfreithiau ar stelcian (stalking) ac ymddygiad gorfodaethol (coercive behaviour). Pwysodd hefyd am apwyntio Comisiynwyr Plant, ac yn wir, Cymru oedd y cyntaf o blith pedair gwlad y DU i benodi.

Cawsom hefyd glywed sawl stori ddifyr ganddo sydd heb eu cyhoeddi yn ei hunan-gofiant 'Y Betws a'r Byd' – beth ddigwyddodd o ddifrif pan honodd Boris Johnson iddo ddwyn yr 'Elfyn Marbles' tra ar daith Seneddol yn Iraq, sut un oedd Edward Heath mewn gwirionedd, pam yr oedd o'n grediniol y byddai ASau ac Arglwyddi'n cael eu carcharu wedi sgandal y treuliau ffug er nad oedd rhaglen deledu wleidyddol Question Time y BBC yn hapus i glywed hynny, a llawer iawn mwy.

Dr Eiddwen Jones, yr awdur lleol poblogaidd, yw'r nesaf i ddod at y Cylch Llenyddol, nos Lun, 6 Chwefror. Wedi gyrfa lwyddiannus ym myd addysg, ysgrifennodd sawl nofel hanesyddol, yn Gymraeg a Saesneg, yn cynnwys 'Cofiwch Lanwddyn', 'Cysgod yr Aur Du', a 'Cwlwm Creulon'. Mae'n argoeli i fod yn noson ddifyr arall!

Ac yna i gloi y rhaglen gyfredol, byddwn yn croesawu enillydd Gwobr Daniel Owen Eisteddfod Genedlaethol Tregaron am ei nofel afaelgar a darllenadwy iawn, 'Capten', sef Meinir Pierce Jones, nos Lun, 3 Ebrill. Y ddau gyfarfod i gychwyn am 7pm yng Nghapel Trefnant (LL16 5UG) ac os nad ydych wedi ymaelodi eleni, gellwch dalu £4 wrth y drws.

# Yr Her o'm blaenau

gan Rob Evans

Yn ddiweddar mae'r tywydd wedi bod yn gymysgedd o law, gwynt ac oerfel, amser i eistedd yn ôl a darllen llyfr. Dw i'n ddarllenwr brwd ac mae holl lyfrau dw i wedi'u darllen am ddegawdau yn dal yma yn y tŷ: pob hyn â hyn dw i'n pori trwyddyn nhw am un i ddarllen am yr ail dro. Dw i newydd orffen, unwaith eto, llyfr T. Rowland Hughes - Y Cychwyn. Mae'r llyfr yn dweud hanes hen weinidog o un o ardaloedd chwarel y Gogledd.

Mae'n cychwyn efo Owen Ellis eisiau mynd efo'i Dad a'i frodyr i'r chwarel nid i weithio ond i weld ei dad yn saethu'r graig. Roedd o'n mwynhau dilyn y dynion i fyny'r lôn hir a hwythau'n cael sbort yn tynnu coes ei gilydd a chael hwyl. Ond cafodd ei dad ddamwain y bore hwnnw a chollodd ei olwg. Doedd ei rieni ddim eisiau i Owen gael gwaith yn y chwarel, roedden nhw'n gobeithio am rywbeth gwell iddo ond mi wnaeth y ddamwain roi stop i'r gobaith hwnnw.

Mae'r stori wedyn yn rhoi darlun o'r cyfnod i ni, amser pan oedd cymunedau'n gryf a chrefydd yn bwysig. Cymunedau clos oedd yn edrych ar ôl eu hunain. Pawb yn 'nabod ei gilydd.

Mor wahanol i'n dyddiau ni. Mae'r syniad o gymunedau wedi hen ddiflannu. Ein heglwysi a'n capeli yn cau un ar ôl y llall a phrinder o bobl i gymryd cyfrifoldeb am ein cymdeithasau. Ein hiaith yn brin lle unwaith yr oedd yn byrlymu. Oes gobaith bellach neu waeth i ni heb eistedd yn ôl a disgwyl am yr anochel?

Does dim pwynt ceisio rhywun i'w feio. Os ydan ni am i'r iaith dyfu unwaith eto mae'n rhaid i ni fod yn gyflym. Gwell anghofio am filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 achos 2031 yw'r flwyddyn bwysig. Dyna pryd mae'r cyfrifiad nesaf.

Felly sut ydan ni'n mynd i wneud hyn, a dw i'n pwysleisio 'ni' achos mae rhaid i bob un wan Jac o'r Cymry Cymraeg chwarae ei ran. Os oes cymdeithas Gymraeg yn eich ardal a dach chi ddim yn aelod - ymunwch! Ydach chi'n ddigon lwcus i gael eglwys neu gapel Cymraeg yn eich ardal? Cymerwch ran! Yn y byd sydd ohoni dyn ni angen y cyfeillgarwch a'r caredigrwydd sydd ynghlwm â nhw.

Dyn ni eisiau mwy o bobl sy'n siarad Cymraeg ac yn fuan iawn. Mae miloedd dros ein gwlad wedi penderfynu dysgu ein hiaith a bob haf pan mae'r cyrsiau yn dod i ben, os nad ydyn nhw wedi cyrraedd y gymuned Cymraeg erbyn hynny, maen nhw ar goll i'r iaith, am byth.

Dw i wedi galw ar y Coleg Genedlaethol, trwy lythyr yn Golwg, i gael neges trwy'r tiwtoriaid i annog dysgwyr i ffurfio grwpiau siarad ac i gyfarfod mewn caffi neu dafarn leol. Rhywle lle dach chi'n gallu gweld a chlywed nhw, os dach chi'n dod ar eu traws ewch i siarad â nhw, byddwch yn garedig â nhw a helpwch nhw i fagu hyder. Gwnewch yn siŵr bod nhw'n dod yn rhan o'ch cymuned. Mae'r angen ar y ddwy ochr!

Gwnewch hyn er mwyn i'n hen iaith barhau!

# Eglwys Unedig Fron a'r Brwcws

Ar fore Sul, Rhagfyr 18fed yr oedd Carolyn Thomas wedi trefnu gwasanaeth ar y thema atgofion Nadolig. Fe gawsom hanes plentyndod Ednyfed Williams mewn gwahanol ardaloedd wrth bod ei dad yn weinidog ac fel yr oeddynt yn treulio y Nadolig. Wedyn fe wnaeth Stan Lyall roi hanes ei blentyndod yn ochrau Llanberis a'r cylch a chyfraniad gan Richard Snelson ac Eric Howells. Mrs Carolyn Thomas oedd yn llywyddu ac fe wnaeth estyn croeso i bawb a darllen adnodau o lyfr Luc, a Rhianwen Williams ledio y garol Peraidd Ganodd Sêr y Bore i bawb eu chydganu ac yna fe wnaeth Nerys Ann Roberts ganu Hwiangerdd Mair. I ddiweddu orig fendithiol iawn fe wnaeth John Geraint Jones roi'r fendith a'r organyddes oedd Iona Edwards.

Fore Sul Nadolig yr oeddym yn croesawu aelodau capeli'r Fro i ddathlu geni gwyrthiol y Baban Iesu dan arweiniad ein Gweinidog gyda Iona Edwards yn cyfeilio wrth yr organ. Y Sul cyntaf o'r flwyddyn, Ionawr 1af, yr oedd yr oedfa a'r Zoom. Yr oedd gwasanaeth yr ail Sul o Ionawr yr oedfa'r Fro yng Nghapel y Pentre. Yr oedd yr oedfa Gymun bore Sul Ionawr 14eg dan arweiniad ein Gweinidog y Parch Andras Iago a'r organyddes oedd Eiri Jones.

Fe gawsom y newyddion trist fore Nadolig am farwolaeth un o'r aelodau - Mrs Magi Jones 9 Dalar Wen. Yr oedd Magi yn aelod yma ers llawer blwyddyn ac yn ffyddlon i holl weithgareddau y capel er iddi fethu â mynychu'r capel ers tro oherwydd cyflwr ei hiechyd. Yr ydym yn cydymdeimlo yn fawr gyda'r merched- Marian, Iona a Caryl yn eu profedigaeth. Cydymdeimlwn hefyd gyda Mr a Mrs Gwilym Williams, Nant y Coed, yn eu profedigaeth o golli brawd Edna ym mis Rhagfyr.

Cynhaliwyd cyfarfod Gweddi dechrau'r flwyddyn prynhawn Dydd Mawrth, Ionawr 20fed, gyda Richard Snelson yn llywyddu a John Geraint Jones, Gaynor Prew ac Erfyl Williams wedi paratoi gwasanaeth bendithiol iawn ar ein cyfer. Fe wnaeth Liz Edwards ddarllen emyn a rhannu'r fendith i gloi.

/gwasg.com PRINT
ARGRAFFU
DYLUNIO GRAFFEG
PAPUR PENNAWD › CARDIAU BUSNES
LLYFRYNNAU › POSTERI
TAFLENNI › PAMFFLEDI
BANERI › BANERI RHÔL › FFLAGIAU
ARGRAFFU O FFEIL › SCANIO I FFEIL
ARGRAFFU FFORMAT BRAS
ARGRAFFU CYNLLUNIAU
LAMINEIDDIO › RHWYMO
Cefn 24 Stryd Elwy, Y Rhyl LL18 1BP
01745 331411 · info@gwasg.com | www.gwasg.com
GwasgPrint

# Yr Hen Huwcyn

O, wel. Mae'n well imi wneud fy ngora'. Mi wna i droi ar f'ochr dde yn gyntaf a cheisio anghofio am y boen yn fy nghlun.
O, wel, beth am droi drosodd ar f'ochr chwith.
Dim byd yn tycio.Wel, beth am orwedd yn wastad ar fy nghefn? Na, dydy hynny ddim yn gweithio 'chwaith.
Mae hyn yn hurt. Roeddwn i'n cysgu fel top ychydig funudau yn ôl. Yn wir, ches i fawr o drafferth cysgu o fewn ychydig funudau o roi'r llyfr i lawr a diffodd y gola'.
Mae hi'n dywyll fel bol buwch rŵan. Sgwn i faint o'r gloch ydy hi?
Be?!!!?? Dim ond hanner awr wedi dau!!
Mae ngheg i'n sych grimp. Fe wna i godi a chael diod o ddŵr.
Wel, dyna ni hynna drosodd. Fe wna i geisio cysgu rŵan. Siawns y bydda' i'n cysgu'n sownd cyn tri.
Be? Mae hi'n hanner awr wedi tri a dydwi heb gysgu winc ers awr.
Wn i be' wna i. Paratoi yn feddyliol ar gyfer y siwrna' i'r De yfory. Troi trwyn y car at y ffordd osgoi ac yna i lawr y ffordd heibio Brwcws, ymlaen i gyfeiriad Llanrhaead' a Rhewl....
O, pa bentre' sydd yn dod gynta' rhwng Croesoswallt a'r Trallwng – Pant neu Lanymynech? Mae un yng Nghymru a'r llall yn Lloegr, dwi'n credu.
Beth pe bawn i'n cael trafferth gyda'r car? Hwnnw yn gwrthod cychwyn ar ôl inni gael cinio... neu hoelen yn y teiar... a dydy'r signal ar gyfer y ffôn symudol ddim yn dda mewn mannau yn y Canolbarth.
Yn waeth fyth, mae hi'n ganol Ionawr a sôn am dywydd caled dros y dyddiau nesaf. Efalla' bydd y pibelli yn rhewi a'r sustem wresogi yn y tŷ yn gwrthod gweithio, a ninna' gant a hanner o filltiroedd i ffwrdd.
Be' oedd hwnna rŵan? Swnio 'run fath â larwm rhyw gar yn canu'n rhywle. Dim fy nghar i gobeithio....ac eto mae o'n swnio mor agos.
Ddylwn i godi a gweld mai fy nghar i ydy o?
Callia wir. Mae hi'n ganol nos a phrin dy fod di'n clywed y sŵn. Car rhywun arall yn y pellter ydy o. Gad y peth fod. Wel, rydwi allan yn yr ardd gefn. Dydwi ddim yn clywed dim smic rŵan. Yn ôl i'r tŷ amdani a cheisio cysgu unwaith eto.
Ond y mae yna bob math o betha' yn mynd trwy fy mhen – anawsterau mawr a bach - a does dim modd i'r hen Huwcyn gael gafael arna' i.
Bellach mae hi'n hanner awr wedi pedwar a rydwi'n gwbl effro. Pe byddai hi'n hanner awr wedi pedwar yn y prynhawn byddwn wedi pendwmpian yn rhwydd!
Y! Be? Ydw i wedi bod yn cysgu? Choelia i fyth. Naddo siwr. Ond mae hi'n chwarter i saith ar y cloc. Diolch am hynny. Fydda i'n iawn rŵan. Pendwmpian eto am ryw awr ydy'r ateb i'm gwneud yn gwbl effro.
Beth oedd y pethau oeddwn i'n poeni amdanyn nhw yn ystod y nos? Pethau na fedrwn i wneud dim yn eu cylch a hithau yn dywyll fel bol buwch.
A bod yn gwbl onest, mynd o flaen gofidiau oeddwn i - lle nad oedd gofidiau yn bodoli, mewn gwirionedd. Mae rhywun yn mynd i'r rhigol o godi bwganod ynglŷn â'r busnes cysgu yma.
Rydwi'n edmygu'r bobl hynny sydd yn gallu cysgu fel twrch drwy'r nos gyfan gan anwybyddu gwynt a glaw a thrafferthion pitw bywyd.
Ydych chi'n gysgwr sâl? Mae'n rhyfeddol faint o'm cymdogion sydd â golau yn eu tai ar oriau annynol o'r nos-sy'n awgrymu eu bod nhw'n cael paned i leddfu'r boen neu maen nhw'n gweithio ar y shifft gynnar.
Diddorol fyddai clywed eich ymateb ac efallai y byddem oll yn derbyn cysur o hynny.

**Stan Lyall**

Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru

DBP

DBP Limited / Denbigh Building Plastics Limited
Tŷ DBP, Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych, LL16 5TA
Ffôn : 01745 818849

Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.

Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.

Ffenestri UPVC ac Alwminiwm, Ffenestri Sash,
Drysau Alwminiwm Cyfansawdd, Drysau Plygu Dwyffordd Alwminiwm,
Ystafelloedd Gwydr, Toeau Cawell, Portshys, Cynnyrch Roofline,
Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.

# Teyrnged Robert Griffiths



Cafodd Robert ei eni ar 18ed o Ebrill 1927, yn un o naw o blant sef Elwyn, Meurig, James, Robert, Gwynfor, Gwenno, Margaret, Elizabeth May ag Ethel, i'r diweddar Gruff a Lil Griffiths, 1 Llys Ifor, Penmachno. Roedd 12 ohonynt yn byw yn y tŷ teras yn Llys Ifor, 4 o'r hogiau yn gorfod rhannu gwely. A tŷ heb drydan. Roedd Robat yn sôn am y tro cyntaf daeth golau trydan i Benmachno, a rhoi bylbiau golau yn y tŷ, a nain yn ceisio chwythu arnynt i roi y golau allan. Pan oedd Robat yn fachgen ieuanc roedd Llys Ifor yn Llys Ifor Stores, siop oedd yn agored unrhyw adeg o'r dydd a'r nos ar brydiau ac yn gwerthu nwyddau o bob math gan ei daid a'i nain, Morus a Margiad Griffiths. Ni wnaethon lawer o elw oherwydd roedd yr hen ddyn yn llenwi basged pobl efo bwyd a gadael nhw fynd heb dalu.

Bu farw taid a daeth cyfnod y siop i ben. Roedd Robat yn ddisgybl yn Ysgol Penmachno pan ddaeth yr evacuees o Lerpwl, gan gynnwys Ken Dodd a gyfarfu Robat a Jane a chofio y cyfnod hapus yn yr ysgol. Breuddwyd Robart oedd mynd i Brifysgol Abertawe i astudio celf, ond roedd ei fam a'i dad eisiau iddo fynd i'r chwarel i ennill arian. Bu Robat yn gweithio yn chwarel Rhiwbach am dair blynedd cyn iddo gael ei alw fyny i'r fyddin ym mis Mawrth 1945. Y jôc oedd bod Hitler wedi gallu gwrthsefyll y gorllewin a Stalin, ond pan glywodd bod Robat Griffiths Penmachno wedi ymuno â'r frwydr roedd o'n gwybod roedd bopeth ar ben. Cafodd gyfnod yn Aldershot ac yna yn Purfleet, dwyrain Llundain, yn gwarchod carchorion rhyfel. Un arall o'r gwarchodwyr a fu'n gweithio efo Robat oedd yr bocsiwr enwog o America, Joe Louis. Trefnodd Robat a'i ffrind pennaf yno, Dei Stiniog, gemau pêldroed rhwng nhw a'r carcharorion, ac fe gafodd nhw chwip din gan yr Almaenwyr bob tro.

Ar ôl demob o'r fyddin dychwelodd adref a dechreuodd weithio fel garddwr yn stâd Foelas Hall. Roedd Robat yn gefnogol i bob achos teiliwng yn ei bentref a bu'n ysgrifennydd yr Eisteddfod leol am flynyddoedd. Roedd Cymru a'r Gymraeg yn bwysig iawn iddo, mwynhau mynd i'r Eisteddfod i grwydro maes a chael sgwrs a barddoniaeth. Roedd o'n aelod o dim Machno Utd a Trefnant, a chafodd Machno lwyddiant mawr, cyrraedd pump rownd derfynol, ennill tair colli dwy yn erbyn chwaraewyr fel Orig Williams a Tarw Nefyn. Chwarae ar yr adain dde ac yna mewnwr chwith, a chafodd Robat erioed gerdyn na gair drwg gan yr un reffari, a'r peth cyntaf i'w wneud ar fore Llun oedd edrych yn y Daily Post am ganlyniad Machno.

Priododd Jane, merch fferm o Gwm Penmachno yn 1961 yng nghapel Salem, lle bu'n flaenor ers 1953, a symud o Benmachno i Drefnant i weithio fel garddwr yn stad Hafod y Green. Bu'n flaenor yng Nghapel Trefnant ac yna symud i Ddinbych a dod yn flaenor yng Nghapel Mawr. Bu'n rheolwr tîm pêldroed Capel Mawr am sawl blwyddyn. Fo oedd Arthur Picton Capel Mawr. Bu Robat yn ofalwr Ysgol Twm o'r Nant am flynyddoedd, yn gyntaf efo Kate Davies ac yna Elis Jones, a chafodd o amser bendigedig, a dim un gair o cheek gan blant yr ysgol.

Roedd ei ffydd drwy gydol ei oes yn gadarn ac yn gryf dros ben, hyd yn oed pan gollodd ei wraig Jane a hithau ond yn 54 oed. Er cymaint o ergyd oedd colli Jane, roedd ei agwedd tuag at fywyd yn hynod bositif, byth yn isel neu annifyr. Roedd Robat wrth ei fodd yn mynd allan am fwyd a chyfarfod pobl o bob maes, mynd i nosweithiau a chyngerddau yn y dre, a mwynhau ei snwcer, yn gapten ar dîm Minffordd ac enillodd lawr o dlysau dros y blynyddoedd.

Roedd o'n mynd i bob parti penblwydd ei wyresau, Bethan, Ffion, Hazel, a Catrin. Bu'n teithio ar draws y byd efo'i deulu, ar draws Ewrop ac America, a hedfan mewn hofrennydd dros Las Vegas a'r Grand Canyon, a hynny ymhell yn saithdegau. Bu garddio tan y diwedd ond y blynyddoedd diwethaf roedd o'n dioeddef o Alzheimers a gwaethogodd hynny yn y cyfnod clo.

I ddarfod, yng ngeiriau ei blant, Medwen, Iwan a Bedwyr "Dwin gwybod na fuasai dad yn hoffi gyd o'r sylw yma ond mae yn ei haeddu o." Dan ni yma heddiw i gofio a ddathlu ei fywyd, dyn sy wedi byw bywyd da. A diolch i Dduw am ei fywyd.


**Cynghorwyr Sir Ddinbych**
**Eich Cynghorwyr Plaid Cymru**



Rhys Thomas - Dinbych Isaf
Delyth Jones - Dinbych Caledfryn a Henllan
Elfed Williams - Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch

Mae ein manylion cyswllt i gyd ar safle
wê y Cyngor Sir

# YSGOL GLAN CLWYD

**.Dathliad Nadolig**

Braf oedd gallu ailafael yn y traddodiad o gynnal dathliad Nadolig yn y Gadeirlan ddiwedd y tymor. Cafwyd rhaglen amrywiol o berfformiad safonol gan ein disgyblion a pherfformiad o'r Meseia gan y côr staff. Hyfryd oedd gweld y lle'n llawn a diolch i bawb a gefnogodd ac a roddodd yn hael at gasgliad tuag at y Banc Bwyd lleol.



Parti Llefaru bl12 a 13



Parti Bechgyn Hyn

**Bore coffi i'r gymuned**

Agorwyd drysau'r ysgol ar fore Mawrth olaf y tymor i groesawu cyfeillion Ysgol Glan Clwyd am fore coffi. Braf oedd gweld rhai wedi teithio o'r Rhyl, Rhuddlan, Trefnant a Dinbych i fod yn ein plith a mwynhawyd paned a sgwrs gan bawb, ynghyd â chael blas o eitemau Nadolig gan ein disgyblion. Diolch i bawb a gefnogodd ac edrychwn ymlaen at gynnal digwyddiadau tebyg eto yn y dyfodol.

**Drama**

Bu disgyblion blwyddyn 11 yn brysur yn paratoi a chwblhau asesiad ymarferol cyntaf eu cwrs TGAU. Cymerodd bawb ran amhrisiadwy yn y broses o greu, datblygu a pherfformio sgript wedi'w ddyfeisio, unai fel actor neu fel dylunydd.



**Clwb Natur**

Mae'r Clwb Natur yn mynd o nerth i nerth a chafodd yr aelodau bleser mawr wrth greu eu haddurniadau Dolig. Diolch i Evie Prior, Lexi Walsh, Julia Probisher a Seren Sumner-Jones am eu gwaith fel arweinwyr ifanc. Gwerthfawrogir eich gwaith caled a'ch brwdfrydedd.

Rydym fel clwb natur yn gyffrous i ddechrau ar y gwaith ar ardd y clwb natur ym mis Ionawr.



**Dylunio Cynnyrch**

Llongyfarchiadau mawr i Jake Chow a enillodd y wobr gyntaf yng ngystadleuaeth arloesedd CBAC drwy Gymru gyda'i brosiect TGAU, yr unig ddisgybl o'r Gogledd i hawlio'i le yn y gystadleuaeth. Mi gynhyrchodd Jake olau i fynd ar ei feic oedd yn gyrru hys-bys i berson dynodedig os oedd yn cael codwm. Roedd y sgiliau dylunio, peirianyddol a rhaglennu oedd yn rhan o gynhyrchu y prosiect yn benigamp ac mi greodd gryn dipyn o argraff ar y beirniaid gyda'i waith. Da iawn ti Jake!

**Cyhoeddi llenyddiaeth**

Llongyfarchiadau i Megan Hodges o flwyddyn 9 am ysgrifennu pennod yn y llyfr "Look At Me Now!" sydd wedi'i gyhoeddi ac ar gael i'w brynu. Gweithiodd Megan gyda genod eraill yng Nghymru i rannu ei phrofiadau ar sut i ddelio gydag emosiynnau er mwyn cynyddu hyder a gwydnwch. Mor falch drostat Megan!



**Addysg Gorfforol**

Pêl Droed Merched

Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed merched D15 a enillodd mewn gêm ddiwedd tymor yn erbyn Y Rhyl. Roedd hon yn gêm rownd derfynol y Gogledd Ddwyrain a'r sgôr o 8 i 2 yn dipyn o fuddugoliaeth ac yn sicrhau lle tîm Ysgol Glan Clwyd yn y rownd genedlaethol. Go dda ferched!

**Nofio Cymru**

Llongyfarchiadau i Ellis Longworth bl 11 am ddod yn 1af yn Ras 50m Broga, ym mhencampwriaeth Nofio Cymru yn Abertawe.

Daeth Rachel o Criced Cymru i roi gwersi criced i'r merched y tymor yma fel rhan o gynllun i geisio cael mwy o ferched yn chwarae criced.



**#Fel Merch**
Llongyfarchiadau i Gwenllian Hughes, Llio Davies ac Erin o flwyddyn 12 ar gael eu dewis fel Llysgenhadon Cenedlaethol *#FelMerch* yr Urdd. Byddant rŵan yn helpu yr adran Addysg Gorfforol gyda chlybiau a gweithgareddau i hybu Iechyd a Lles merched yr ysgol.



**Trawsgwlad**
Llongyfarchiadau i bawb wnaeth gynrychioli Sir Ddinbych yng nghystadleuaeth trawsgwlad Gogledd Ddwyrain Cymru yn ddiweddar. Fe ddaeth Elis Martin, bl9 yn gyntaf a bydd yn cynrychioli y rhanbarth ym mhencampwriaeth Cymru. Dyma'r canlyniadau:
Anni Roberts Blwyddyn 7 - 6ed
Lucian Morris Blwyddyn 8 - 8fed
Elis Martin Blwyddyn 9 - 1af
Harrison Keys Blwyddyn 9 - 3ydd
Sorrel Blount Blwyddyn 9 - 4ydd
Cerys Thomas Blwyddyn 9 - 7fed

Sophie Michael Blwyddyn 10 - 2il
Lleucu Williams Blwyddyn 11 - 7fed
Aimee Vaughan Blwyddyn 11 - 8fed
Chloe Holmes Blwyddyn 11 - 9fed


Bu nifer o'n disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgaredd llysgenhadon pêl-droed bl7-13 wrth i FAW ymgynghori ar ddatblygu cynnig cymunedol i bobl ifanc yn eu harddegau.

**Llwyddiant Cenedlaethol**
Llongyfarchiadau i Ben Senior, bl11 ar gael ei ddewis i sgwad tîm Cymru pêldroed dan 16. Gwych gweld enw Ysgol Glan Clwyd ymysg y tîm a dyma'r ail dro i deulu Ben gael y llwyddiant hwn - roedd ei frawd Mathew yn y tîm llynedd hefyd!

**Gymnasteg**
Llongyfarchiadau i Katie Thomas, Mared Hargreaves a Megan Lloyd o flwyddyn 9 am eu cyfraniad i'w clwb Gymnasteg. Cafodd y tair dystysgrif i gydnabod eu gwaith caled wrth helpu gymnastwyr ifanc i ddatblygu eu sgiliau. Hefyd, cafodd Mared a Megan eu henwebu ar gyfer gwobr gyda Gymnasteg Cymru. Bydd y sermoni wobrwyo yn Venue Cymru yn y flwyddyn newydd. Pob lwc genod!

## O'R LLYFRGELL

Blwyddyn Newydd Dda llawn iechyd, hapusrwydd a chyfleoedd newydd i chi gyd. Beth am wneud adduned i ddefnyddio'ch cerdyn Llyfrgell eleni ac arbed arian gyda'n holl adnoddau sydd ar gael am ddim. Dewch mewn i'ch Llyfrgell am ddewis gwych o lyfrau, mynediad am ddim i'r rhyngrwyd a wi-fi. Ewch ar-lein am amrywiaeth eang o elyfrau, llyfrau sain, cylchgronau a phapurau newydd digidol. Cofiwch hefyd am y Croeso Cynnes sydd yn eich disgwyl yn y Llyfrgell gyda gofod clyd i ddarllen, astudio neu weithio, adnoddau i gael paned, ymuno mewn gwneud jig-so neu yn un o'r gweithgareddau.
Dim dirwyon – llechen lân! – Mae'n amser delfrydol i glirio, os cewch hyd i lyfrau Llyfrgell, dychwelwch nhw atom, byddwn yn falch o'u derbyn yn ôl, ni fydd unrhyw ddirwyon!




Casgliad hyfryd, hyfryd o gerddi am gariad, am serch ac am ramant yn y byd sydd ohoni. Mae yma gerddi wedi eu comisiynu o'r newydd, a llawer o gerddi cyfarwydd iawn hefyd. Y llyfr perffaith ar gyfer Dydd Santes Dwynwen



Dementia - Cyflwynwyd Llyfrgell Dinbych gyda Thystysgrif Cyflawniad yn ddiweddar gan Grŵp Dementia -Gyfeillgar Dinbych yn ardystio ein bod wedi derbyn Statws Gweithio tuag at fod yn Ddementia-Gyfeillgar.



Cynhaliwyd Clwb Sgwrsio yn Wcreineg yma yn wythnosol yn Llyfrgell Dinbych yn ddiweddar – braf gweld bobol yn cyfathrebu mewn gwahanol ieithoedd.

# EISTEDDFOD YR URDD SIR GAERFYRDDIN 2023

Helo bawb, gobeithio eich bod chi gyd yn cadw'n dda wrth i ni fwrw ati efo'r flwyddyn newydd! Dyma fi'n rhoi diweddariad i chi o ran gweithgareddau'r Urdd yn Sir Ddinbych.

Yn dilyn llwyddiant Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych yn 2022, mae'n deg dweud fod gan bobl ifanc ardal Dinbych a thu hwnt ddigonedd mwy o betrol yn y tanc a bod potensial i serennu yn yr Eisteddfod eleni unwaith eto. Dyma hwb i bawb yn yr ardal felly i fwrw ati i annog ein pobl ifanc i gofrestru i gystadlu. I roi yn eich dyddiaduron, dyma ddyddiadau'r Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth Sir Ddinbych:

04/03/2023 – Eisteddfod Cylch Rhuthun – Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun

04/03/2023 – Eisteddfod Cylch Dinbych – Ysgol Uwchradd Dinbych

11/03/2023 – Eisteddfod Cylch Edeyrnion – Ysgol Dinas Bran, Llangollen

11/03/2023 – Eisteddfod Cylch Rhuddlan – Ysgol y Llys, Prestatyn

15/03/2023 – Eisteddfod Rhanbarth Offerynnol Cynradd – Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy


18/03/2023 – Eisteddfod Rhanbarth Uwchradd – Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun

22/03/2023 – Eisteddfod Ddawns Rhanbarth Dinbych – Ysgol Uwchradd y Rhyl

25/03/2023 – Eisteddfod Rhanbarth Cynradd Dinbych – Arwerthiant Rhuthun


Mae angen i bawb sydd eisiau cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd fod yn aelod, felly ymaelodwch cyn gynted a phosib. Wedi i chi wneud hyn, ewch ati i gofrestru i gystadlu. Mae cofrestru i gystadlu ar gyfer Cystadlaethau llwyfan yn cau ar Ddydd Llun y 13eg o Chwefror. Felly ewch amdani! Bydd diweddariadau o ran manylion yr Eisteddfodau'n cael eu rhoi ar Gyfryngau Cymdeithasol Urdd Sir Dinbych, felly ewch i ddilyn rhain ar Facebook, Instagram a Twitter os nad ydych chi'n gwneud yn barod.

Cadwch olwg allan hefyd am weithgareddau'r Urdd yn Rhanbarthol ac yn Genedlaethol, sydd hefyd yn cael eu hysbysebu ar y Cyfryngau Cymdeithasol.




Dau o brif weithgareddau Cylch Dinbych yw Adran/ Uwch Adran Dinbych (wele'r hysbysebion). Mae amryw o weithgareddau eraill yn digwydd ac rydym wastad yn awyddus i glywed am syniadau ar gyfer mwy o weithgareddau, felly cofiwch gysylltu os hoffech i ni drefnu rhywbeth i'ch plant a phobl ifanc!

Ioan Rees (Swyddog Cymunedol Sir Ddinbych)
ioanrees@urdd.org







## Atebion IONAWR 2023

**Ar Draws :**
6. Adfer
7. Tombola
9. Ebeneser
10. Dieuog
11. Haig
12. Un ar hugain
14. Afocado
16. Cignoeth
18. Canolbwynt
21. Maip
22. Hansel
24. Ofergoel
26. Y Wal Goch
27. Asesu

**I Lawr :**
1. Afonig
2. Crys
3. Storfa
4. Amod
5. Goresgyn
6. Arbrawf
8. Atodi
12. Undeb
13. Haint
15. Croesiad
17. Etifeddu
19. Abaty
20. Ymolchi
21. Magned
23. Lego
25. Edau

## CROESAIR CHWEFROR 2023



**Ar Draws :**
1. Enw bachgen
4. Awgrym o werth
9. Rhan o'r meddwl
10. Partner Juliet
11. Cynnal trafodaeth
12. Warws
14. Amser byr, trawiad llygad
16. Mab fy mrawd neu fy chwaer
18. Mwnci
20. Cyfnod cynnar ym mywyd pob dyn
24. Enw bachgen
25. Llythyr Beiblaidd
28. Merch ifanc
29. Anghyffredin
30. Creadures ddychmygol (3,6)
31. Un cyfnod yn natblygiad pryfyn

**I Lawr :**
1. Ffigwr hirgrwn
2. Pobl sy'n arsylwi
3. Dewi yw ........ Cymru
4. Gwneud gwaith gwyddonol
5. Rhoi gyda'i gilydd
6. Pwerus
7. Mis ymprydio Mwslemiaid
8. Dadrithiad
13. Cwt
14. Gwynt ysgafn
15. Partner Efa
17. Yn gallu amrywio
19. Bwlch mawr
20. Term gramadegol
21. Ymateb i jôc dda
22. Un sy'n llacio neu ryddhau cylymau
23. Agosáu
26. Ystafell i ymlacio ynddi
27. Tafod o dân







# Gethin yn gwehyddu ei hud



Y loom yn gwehyddu ei scarffiau sidan

Mae dylunydd tecstilau o Ddinbych yn mynd o nerth i nerth.

Mae Gethin Ceidiog Hughes yn cynhyrchu sgarffiau sidan chwaethus a choeth gan ddefnyddio dulliau gwehyddu traddodiadol.

Mae hefyd yn wneuthurwr printiau arobryn a wnaeth ei farc gyntaf fel ffotograffydd pan ddaliodd ei luniau trawiadol o sîn clwb nos Caerdydd enwau mwyaf y gylchdaith DJ rhyngwladol gan gynnwys Jamie XX, DJ mwyaf blaenllaw Brasil, DJ Marky, a chyn gyflwynydd Radio 1 Friction.



Yn gyn-ddisgybl o Ysgol Twm o'r Nant ac Ysgol Glan Clwyd, aeth Gethin i Brifysgol Metropolitan Caerdydd, lle enillodd radd mewn Dylunio Cynnyrch cyn mynd ymlaen i ennill gradd Meistr mewn Celf a Dylunio.

Taniwyd fflam ei awen greadigol yn ystod ei gyfnod yn y brifysgol a thalodd deyrnged i'w diwtor, Dr Stephen Thompson, am ei waith fel mentor a roddodd gyfeiriad i'w ymdrechion artistig.

Ar ôl y brifysgol, trodd Gethin at felin draddodiadol yng Ngorllewin Swydd Efrog i wehyddu ei gasgliad cyntaf o sgarffiau ar beiriannau gwehyddu traddodiadol, gan ddefnyddio sidan amrwd o Siapan a'r Eidal, diolch i gymorth ariannol gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Yn ôl Gethin, bu'n ffodus i gael ei hyfforddi gan y gwehydd chwedlonol, Francis Moore, meistr y grefft o Halifax oedd ag enw da ledled y byd, a fu farw yn 2020.

Roedd y casgliad cyntaf hwnnw'n cynnwys chwe chynllun ar yr un thema o sgwariau du a gwyn, wedi'u hysbrydoli gan baentiad eiconig o 1915 sef 'Sgwâr Du', gan yr artist o Wcrain, Kazimir Malevich.

Dechreuodd Gethin ymddiddori yn yr artist radical o Kyiv yn y brifysgol lle denwyd ef at ei ddyfeisgarwch yn defnyddio siapiau geometrig deinamig ac adeileddau haniaethol.

Mae'r arddull wedi dylanwadu'n gryf ar waith Gethin ond ochr yn ochr ag estheteg, mae deunyddiau o safon uchel a chrefftwaith yr un mor bwysig iddo.

Rhoddodd yr egwyddorion hynny ar waith wedi iddo ennill lleoliad nodedig fel rhan o gynllun Ysgoloriaeth Profi yn y Ganolfan Argraffu Ranbarthol, sy'n rhan o Goleg Cambria yn Wrecsam.

Yn sicr fe dalodd hynny ar ei ganfed oherwydd aeth Gethin ymlaen i ennill Gwobr Goffa Eirian Llwyd, sy'n anrhydeddu artistiaid Cymreig a ddangosodd ymroddiad arbennig a dawn greadigol yn y maes o wneud printiau.





Roedd Eirian Llwyd, gwraig cyn arweinydd Plaid Cymru a Dirprwy Brif Weinidog Cymru Ieuan Wyn Jones, yn wneuthurwr printiau o fri ac yn sylfaenydd Y Lle Print Gwreiddiol ar Ynys Môn.

Yn dilyn ei marwolaeth yn 63 oed yn 2014, sefydlodd ei theulu a Chyngor Celfyddydau Cymru ymddiriedolaeth goffa yn ei henw i ddarparu gwobrau ariannol i artistiaid Cymreig newydd sy'n arbenigo mewn gwneud printiau.

Roedd dau o brintiau Gethin i'w gweld mewn arddangosfa adolygol o waith cyn-enillwyr Gwobr Eirian Llwyd yng Nghanolfan Grefft Rhuthun y llynedd.

Dywedodd Gethin: "Rwyf wedi bod yn hynod o ffodus i gael fy mentora gan bobl wych sydd wedi fy annog a'm hysbrydoli.

"Roedd Dr Stephen Thompson ym Met Caerdydd yn ddylanwad mawr a rhoddodd yr hyder i mi ddilyn a datblygu fy nghreadigrwydd.

"Roeddwn i hefyd yn hynod o ffodus i ddysgu am y grefft o wehyddu gan Francis Moore, dyn gwych a gwehydd a gafodd ei gydnabod fel un o gewri'r diwydiant.

"Yn nes adref, mae'n rhaid i mi ddiolch i Philip Hughes, cyfarwyddwr Canolfan Grefft Rhuthun,



sydd wedi bod yn fentor gwych, ac Iolo Williams o Gyngor Celfyddydau Cymru, sydd wedi bod yn gefnogol iawn ar hyd yr amser."




Yng ngogledd Cymru, mae modd prynu sgarffiau Gethin yng Nghanolfan Grefft Rhuthun ac Oriel Gelf Mostyn yn Llandudno.
Meddai: "Fy nod yw creu darnau i'w trysori sydd â gonestrwydd artistig yn ganolog iddynt.
"Mae'n faes arbenigol iawn ac i mi mae'n ymwneud â gwneud y gwaith gorau posib.
"Mae fy sgarffiau'n cael eu gwehyddu mewn lliain dwbl Cymreig sy'n golygu bod y patrwm positif yn cael ei wau ar un ochr tra bod y patrwm negatif yn



ymddangos ar yr ochr arall. Canlyniad hynny yw gwneud y sgarffiau'n fwy diddorol yn weledol.
"Mae'r sidan yn cael ei olchi mewn sebon organig a dydw i ddim yn defnyddio deunyddiau gwneud, cemegau na phlastigau. Mae'r cam gorffen a golchi â llaw yn cymryd pedwar diwrnod – sy'n golygu bod y broses yn un hir iawn gyda llawer o wahanol gamau."

Dywedodd Philip Hughes, cyfarwyddwr Canolfan Grefft Rhuthun: "Mae Gethin yn ddyn ifanc dawnus iawn ac mi wnes i ei enwebu yn y gorffennol ar gyfer Gwobr Goffa Eirian Llwyd. Mae'n braf gweld y gwaith gwehyddu y mae wedi bod yn ei ddatblygu dros nifer o flynyddoedd.
"Mae ganddo ddealltwriaeth wirioneddol o berthnasedd a rhinweddau cyffyrddol yr hyn y mae'n ei gynhyrchu, a bydd yn datblygu ystod wych o sgarffiau sy'n braf i'w gwisgo ac yn braf i'w cadw am byth hefyd."



Am fwy o wybodaeth ewch i www.wildingstudio.com

*Gethin Ceidiog Hughes*




TE YN Y GRUG

**Tŷ Te a Delicatessen**
**Coronation Buildings,**
**Lôn Gefn,**
**Dinbych, Ll16 3TE**
**01745 816576**

Snow In Summer
33 Stryd y Dyffryn, Dinbych
LL16 3AH
Siop leol yn gwerthu cardiau, anrhegion a phethau vintage




DenbighSnowInSummer
@Snowinsummer_shop
@snowinsummer33

Cyngor Sir Ddinbych

Cynghorydd

**Mark John Young**



Dinbych Isaf - Annibynnol

**Symudol: 07825 912554**

**www.sirddinbych.gov.uk**

**E:mark.young@sirddinbych.gov.uk**

**MALDWYN WILLIAMS**



**Ffordd y Rhyl, Dinbych**
**Ffôn:01745 812542**

DARNAU I BOB MATH O GEIR
STÔRS: 813840
GORSAF MOT
GOLCHFA CEIR



***GWERTHU CEIR A CHERBYDAU 4 X 4***
***Ffôn:01745 814647***
maldwynwilliams@garageservices1.fsnet.co.uk

# Ysgol Twm o’r Nant

Braf oedd cael croesawu pawb yn ôl wedi gwyliau’r Nadolig. Mae bwrlwm y themau newydd wedi dechrau ym mhob uned. Darllenwch ymlaen  er mwyn dod i wybod mwy.

**Uned dan 5**

Mae ein thema hanner tymor yn seiliedig ar y llyfr hyfryd ‘Methu cysgu wyt ti arth bach’ gan yr awdur Martin Waddell. Mae’r plant wedi mwynhau gwrando ar y stori yn fawr iawn. Cawn gyfle i edrych ar ddydd a nos, tymor y Gaeaf ac ar berthynas gofalgar hyfryd arth mawr a’r arth bach. Mae’r plant wedi bod yn brysur yn archwilio'r ardaloedd dysgu o fewn ein dosbarthiadau ac yn mwynhau yn fawr.









Rydym wedi dathlu Diwrnod Santes Dwynwen drwy wrando ar y stori a chwarae rôl rhai o’r cymeriadau. Cawsom amser cylch i drafod pwy sy’n bwysig i ni a phwy ydan ni’n ei garu a pham.
Aethom ati i ddysgu am siapiau 2D drwy greu addurn tlws i’r ffenest. A bu pawb yn coginio bisgedi siâp calon flasus.




Yn yr ardal tu allan mae'r plant wedi bod yn gwneud bwyd i'r adar bach gan fod y tywydd mor oer. Da iawn chi blant!



CYFREITHWYR SOLICITORS
GUTHRIE JONES & JONES

29 FFORDD RHUTHUN,
DINBYCH LL16 3EH
Ffôn : 01745 814 817   E-bost: dinbych@guthriejj.co.uk
Gwefan: www.guthriejj.co.uk
Gwasanaeth Cyfreithiol cyflawn yn y Gymraeg

**Uned Dan 7**

Mae disgyblion yr Uned Dan 7 wedi setlo nôl yn yr ysgol ar ôl eu seibiant haeddiannol dros y gwyliau Nadolig ac yn barod am dymor newydd o waith. Ein thema yr hanner tymor yma ydy 'Antur Natur'. Mae'r dysgwyr wedi mwynhau dechrau dysgu am adar a byd natur. Mae pawb wedi bod yn brysur ac wrth eu bodd gyda'r gweithgareddau yn yr ardaloedd dysgu yn y dosbarth.









**Uned dan 9**

Teithio yw ein thema ni y tymor yma ac rydym wedi bod yn edrych ar wahanol fathau o drafnidiaeth. Efallai bod ambell un ohonoch chi wedi sylwi ar y plant yn cynnal arolwg traffig sy'n pasio tu allan i'r ysgol.

Ar ddechrau ein tymor fe ddarllenom ni y llyfr 'Mi welais long yn hwylio' ac ynddo roedd potel gyda neges arbennig ynddi. Felly fe benderfynom ni ysgrifennu negeseuon i'n gilydd i godi calon pob un ohonom, a'u gosod mewn poteli bach. Byddwn yn eu hagor bob diwrnod y tymor yma a byddant yn siwr o roi gwên ar ein hwynebau.







Cawsom hwyl yn ein gwersi STEM yn creu cychod padlo a oedd yn symud gyda phropelar. Cynlluniodd y plant eu cwch ac yna arbrofi i weld os oedd o yn gallu symud.







**Uned dan 11**

Mae hi'n flwyddyn newydd ac yn gychwyn ar dymor newydd yn uned dan 11. Y Tymor yma rydym am ganolbwyntio ar Ryfeddodau'r Byd gan ddilyn trywydd y llyfr 'Kensuke's Kingdom' i'n hwylio ni ar draws y byd!

Roedd tîm merched yr ysgol yn awyddus iawn ar gyfer twrnament pêl rwyd Dyffryn Clwyd, ond yn anffodus roedd yr eira llithrig wedi gorfodi i'r twrnament gael ei ail-drefnu at eto.

Roedd tîm cwis yr ysgol yn hynod o ffodus i gael cystadlu yng nghwis 'Dim clem' Menter Iaith. Fe wnaeth y tîm yn arbennig gan ateb 51 cwestiwn o 55 yn gywir! A fydd hyn yn ddigon i fynd i'r rownd nesaf 'sgwn i?



**Siop Clwyd**
33 STRYD FAWR, DINBYCH LL16 3HY
01745 813431
Llyfrau, Cardiau
Crynoddisgiau a
Chrefftau
siopclwyd@yahoo.co.uk



Magi Ann wedi cael croeso cynnes gan blantos Meithrin Ysgol Twmo'r Nant yn eu parti Nadolig.



Magi Ann a tîm y Fenter Iaith yn cynnal gweithgareddau celf a chreu cardiau a bathodynnau yn ffair Nadolig






# Cystadleuaeth Rholio'r Gasgen Cymru 2022

Oedd, roedd digwyddiad Rholio'r Gasgen yn ôl eleni ar ôl dwy flynedd o doriad oherwydd Covid. Unwaith eto cynhaliwyd y gystadleuaeth flynyddol, a drefnwyd gan Glwb Rotari Dinbych, ar Stryd Fawr tref Dinbych ar Ŵyl San Steffan lle'r oedd tyrfa fawr wedi ymgasglu erbyn dechrau'r gweithgaredd.
Yn gyntaf roedd taith o dros 30 o hen dractorau a rhai mwy newydd o wahanol wneuthuriad a maint ar eu ffordd ar gyfer rhediad tractor Nadolig byr a drefnwyd gan Gymdeithas Hen Dractorau Dyffryn Clwyd. Nesaf i'r Stryd Fawr roedd ceffylau a helgwn Helfa Fflint a Dinbych. Wedi derbyn y cwpan stirrup traddodiadol, aethant ar eu taith Gŵyl San Steffan flynyddol. Hefyd yn diddanu'r dorf roedd John Sellers a Dilwyn Pierce ynghyd ag Ifor John Jones. Yna cychwynnodd y prif ddigwyddiad gyda rhestr gref o ymgeiswyr ar gyfer y rasys dynion a merched, gan gynnwys cystadleuwyr o Melbourne Awstralia, Pennsylvania UDA ac ardal y Basgiaid yn Sbaen. Dechreuwyr y rasys eleni oedd Llywydd y Clwb Rotari, Mike Roberts a Maer Dinbych y Cynghorydd Alyn Ashworth.
Enillwyr y rasus oedd fel a ganlyn:
Pencampwr y Dynion - Gareth Owen
Pencampwraig y Merched - Tina Hoyles
Enillwyr Cystadleuaeth Tîm - Mark a Ben Harmsworth
Hefyd yn cystadlu ar arena ychydig yn llai roedd bechgyn a merched iau a hŷn, gyda'r enillwyr yn y categori hwn fel a ganlyn:
Genethod Hŷn - Ffion Haf Jones, Ysgol Brynhyfryd
Bechgyn Hŷn - Alfie Hoyles, Ysgol Glan Clwyd
Genethod Iau - Seren Mazzi, yr Eidal
Bechgyn Iau - Tom Roberts, Ysgol Frongoch
**Hoffai Clwb Rotari Dinbych** ddiolch i bawb a gefnogodd y digwyddiad eleni, yn enwedig llu o noddwyr y gystadleuaeth Rholio'r Gasgen a restrir isod. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd.
**Noddwyr Y Gystadleuaeth 2022**
Cyngor Tref Dinbych, Lock Stock, Osh Wash, Birch Hire, Carpet Emporium, Pritchard The Vet, NHC Technology, Denbigh Building Plastics, Happy Homes,Townsend Supplies, Catalyst Systems, Copper Pot, E Jones Electrical, Reebes, E G Morris Electrical, Meirion Davies & Co Ltd, Emyr Evans Tractors,Guthrie Jones & Jones, A&D Motorcycles, Penybryn Joinery, J H Jones Butchers, Shorecliff Training Ltd., Glyn Evans Auto Clinic, Denbigh Plant Services, Malpas Tractors, RFL Credit, Monopoly, Graig Motors, Woodmen UK, Clwyd Caravan Storage, E Jones & Sons, Saunders & Schwartz Opticians, Diskos, CLD Meats, Daniel Morris Family Butcher, Jones & Graham Accountants, Travelsport, GGS Heating, J & G Tyres, Henllan Bakery, CVAM, Alton Murphy, RVT Tractors, Evans Kilford Farm, Humphreys Signs, D Jones Plant Hire (Scissor Lift).
**Buddiolwyr Elusennau'r Clwb Rotari dros y 30 mis diwethaf:** Aid to Gambia , Air Ambulance, DASU (Domestic Abuse Safety Unit), Clwb Peldroed Dinbych-Defibrillator, Ysgol Uwchradd Dinbych, Denbigh in Bloom, Forget Me Not, Gofal Dydd y Waun, Homestart, Hope House, Kanzi-Kibera Friends, Kids Out, Lend with Care, Llanefydd Church, Llannefydd Community Group, Macmillan Cancer Support, Marie Curie, Mary Dei, Medicins sans Frontieres, Mercy Ships, Mind Dyffryn Clwyd, Movement Centre for Target Training, Myaware, NSPCC Cymru (Childline), Pakistan disaster appeal, Poppy Appeal, Rotary Foundation, Rydal School, RYLA sponsorship, Samaritans, Shelter Box, St Kentigern Hospice, Ty Gobaith, Y Ty Gwyrdd, Ukraine relief, Ysgol Frongoch, Ysgol Pendref.
Cyfanswm wedi'i ddosbarthu dros y cyfnod - £13,615.75.







HUW VAUGHAN JONES
Arlunydd, Cartwnydd

Dewis da o luniau du a gwyn a lliw ar gael am bris rhesymol. Adeiladau, anifeiliaid, tractorau, ceir, blodau, coed a.y.b. Neu beth am lun arbennig o'ch dewis chi ar gyfer achlysur arbennig. Lluniau o bob maint

Cysylltwch â Huw ar
01745 812184

# Tic Toc gan gwmni Parama 2

Mae ***Tic Toc*** - y sioe gerdd ddwyieithog Cymraeg a Saesneg, gyda chast o fenywod a band byw yn ôl ac ar daith drwy Gymru ym mis Mawrth eleni ac yn ymweld â **Theatr Twm o'r Nant Dinbych ar Fawrth 11eg 2023**. Cyflwyna'r sioe sleisen o hanes Cymru wedi ei seilio ar straeon go iawn y menywod fu'n gweithio yn y ffatrïoedd; y criw o ffrindiau agos ddaru oresgyn streics – mor berthnasol i heddiw, ffatrïoedd yn cau, anffafriaethau a helbulon, drwy ganu, chwerthin a dawnsio a gyda nerth eu cyfeillgarwch.


Yna ddo'th rhwyg i amharu ar eu cyfeillgarwch. A nawr mae aduniad wedi'i drefnu.... ond mae un o'r criw heb dderbyn gwahoddiad! Mae chwerwder, loes a thensiwn. Beth petai hi'n dod beth bynnag? Ble mae hi ar ôl yr holl flynyddoedd? Mae dyhead i'w gweld ond hefyd arswyd. Yn raddol datgelir y gorffennol a arweiniodd y menywod i'r cyflwr hwn. A wna gelyniaeth drechu clymau cariad a chyfeillgarwch a ail-daniwyd? Dewch i ymuno â ni yn yr aduniad gyda **Gillian Elisa, Lowri-Ann Richards, Clare Hingott, Olwen Rees, Mary-Anne Roberts** a **Carys Gwilym** - rhai o'n hoff actorion a chantorion!

Mae *Tic Toc* yn talu teyrnged i fenywod y ffatri, ein mamau a'n neiniau, mewn sioe sydd wedi'i seilio ar eu straeon a'u hatgofion. Ymunwch â nhw i ail-fyw'r gorffennol wrth iddynt ddod at ei gilydd i ail-greu'r amseroedd da a'u ieuenctid!

© Parama2 Ionawr 2023

Llun gan Kirsten McTernan




Comedi dywyll am brofiadau pâr ifanc, bohemaidd a gwrthryfelgar wrth iddynt geisio bywyd newydd, anturus.

Dilynwn eu taith o'u cartrefi yng nghefn gwlad Cymru i ganol St. Giles yn 'underbelly' Llundain fawr.

*"Comedi am ryddid sydd yma. Gofynnwn y cwestiwn: pa mor bell y dylem ni fynd i fynnu rhyddid, ac oes gennym ni'r hawl i rwystro rhyddid pobl eraill? Yn ystod oes o gyfnodau dan glo, cyfyngiadau a cholled, rydym i gyd yn profi ac yn archwilio ein perthynas â rhyddid, ac yn gofyn pwy sy'n haeddu rhyddid...a phwy sydd ddim?" (Chris Harris).*

Awdur: Chris Harris
Cast: Siôn Emyr a Mali O'Donnell
Cyfarwyddo: Betsan Llwyd
Cerddoriaeth: Mari Mathias



# Adra yn croesawu caniatâd cynllunio i ddatblygiad tai yn Ninbych

Mae cymdeithas dai Adra wedi croesawu penderfyniad Cyngor Sir Ddinbych i ganiatáu cais cynllunio diwygiedig ar gyfer 110 o dai ar safle Gwaenynog yn Ninbych – gyda 80 (73%) o'r tai hynny yn dai fforddiadwy.
Mi gafodd y cynllun ar gyfer 110 o dai ar dir gyferbyn â safle Ysgol Pendref ei gymeradwyo yn Nhachwedd 2022 a'r wythnos hon rhoddwyd caniatâd pellach ar gyfer cynllun gosodiad diwygiedig, cynlluniau rheoli'r tirwedd, mân newidiadau i rai mathau o dai a gwaith ecolegol ar y safle.
Dywedodd Daniel Parry, Cyfarwyddwr Datblygu Adra: "Mae hwn yn newyddion gwych i'r ran hon o Sir Ddinbych, gan fod galw cynyddol am fwy o dai fforddiadwy yn yr ardal hon ac ar draws rhannau eraill o'r Gogledd, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd presennol.
"Rydym yn edrych ymlaen at gydweithio gyda Chyngor Sir Ddinbych a'r datblygwyr Castle Green er mwyn cychwyn ar y gwaith cyn gynted ag y bo modd a chynnig cartrefi o ansawdd i bobl leol. Bydd y datblygiad yn cynnwys cymysgedd o dai ar gyfer rhent cymdeithasol a rhai i'w rhentu ar y farchnad agored.
"Mae'r datblygiad diweddaraf hwn gan Adra hefyd yn adlewyrchu ymrwymiad cadarn yn y Cynllun Corfforaethol i adeiladu 900 o gartrefi newydd erbyn 2025, gan gynyddu nifer ei heiddo i dros 7,500, yn ogystal â buddsoddi £60 miliwn yn ei heiddo presennol".

*Gareth Watson*



*Trefnwyr Angladdau Annibynnol*

**R.W.Roberts a'i Fab**

Gwasanacth personol a gofalgar, Ddydd a Nos

Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele

Gorffwysfa, Ffordd Ystrad,
Dinbych, LL16 4RH
Ffôn: 01745 812935
Ffacs : 01745 817303
E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com

Plas Tirion, Kinmel Avenue,
Abergele, LL22 7LW
Ffôn: 01745 827777
Ffacs : 01745 827750
E: rwroberts.abergele@gmail.com

www.rwrobertsandson.co.uk

Golden Charter Funeral Plans

SAIF National Independent Funeral Directors

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | | | | 2 | | 8 | | 5 |
| | | 8 | | 6 | | | 3 | 9 |
| 4 | | 9 | | | | | | |
| 1 | | 3 | 2 | | | | 8 | |
| 8 | | 2 | 3 | 9 | 1 | 5 | | 4 |
| | 9 | | | | 5 | 3 | | 1 |
| | | | | | 1 | | | 8 |
| 3 | 8 | | | 1 | | 4 | | |
| 9 | | 6 | | 7 | | | | 3 |

## Chwilair Misoedd

IONAWR, CHWEFROR, MAWRTH, EBRILL, MAI, MEHEFIN, GORFFENNAF, AWST, MEDI, HYDREF, TACHWEDD, RHAGFYR


| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I | U | H | C | A | I | Y | W | H | D | M | P |
| A | T | T | U | M | G | F | Y | Y | N | E | U |
| M | I | O | N | A | W | R | U | D | F | D | C |
| H | C | H | W | E | F | R | O | R | L | I | Y |
| R | S | L | L | L | P | M | U | E | E | W | M |
| H | U | Y | Y | C | F | L | T | F | A | E | E |
| A | H | T | R | W | A | M | M | I | M | H | H |
| G | P | C | R | A | W | S | T | S | H | H | E |
| F | Y | G | P | U | P | Y | F | G | F | R | F |
| Y | F | A | N | N | E | F | F | R | O | G | I |
| R | P | F | B | E | B | R | I | L | L | S | N |
| O | P | F | U | T | A | C | H | W | E | D | D |

Gwefr heb Wifrau

# AMGUEDDFA RADIO

Dilynwch ni ar flickr Cwmulus https://cwmulus.org/

**Darlith**




Bu Dr. D. Ben Rees, Lerpwl, yn sgwrsio â ni yn ddiweddar am **Hanes Gwasg Gee**, un o brif weisg Cymru am ran helaeth o ddwy ganrif. Sefydlwyd y wasg yn wreiddiol yn yr Wyddgrug gan y Parch. Thomas Jones. Symudodd i Ruthun, ac wedyn i Ddinbych yn 1809, ac yn 1813 cymerodd Thomas Gee reolaeth o'r gwaith. Ar ôl marwolaeth Thomas Gee, cymerodd ei fab, o'r un enw, yr awennau yn 1845, ar ôl derbyn hyfforddiant gan gyhoeddwyr yn Llundain. Roedd y Thomas Gee iau yn Weinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, yn wleidydd Rhyddfrydol yn ogystal â bod yn argraffwr. Ffynnodd y gwaith a chyhoeddodd *Y Traethodydd* cyntaf yn 1845 a'r *Gwyddoniadur Cymreig*, golygydd John Parry, mewn deg cyfrol yn 1854-1879. Ei fenter fawr oedd argraffu a chyhoeddi'r *Faner* ar Fawrth 4ydd 1857, a hynny trwy ddefnyddio peiriannau stêm am y tro cyntaf. Yn 1859 unwyd *Y Faner* ac *Amserau Cymru*. Roedd dylanwad Thomas Gee yn eang wrth iddo hyrwyddo materion rhyddfrydol Cymreig yn y cyhoeddiadau, megis gwrthwynebu'r degwm, lledaenu'r bleidlais a chael pleidlais gudd, ac ymgyrchu am Brifysgol i Gymru. Rhoddodd gyfle i bobl ddawnus weithio yn y Wasg ac roedd yn awyddus i fuddsoddi mewn peiriannau newydd, modern, gan ddilyn y siopau argraffu yn Lloegr. Ar ôl ei farwolaeth yn 1898, Hywel ei fab oedd yn gyfrifol am y wasg, a Mary ei chwaer ar ôl ei farwolaeth yntau yn 1913. Yn 1922 gwerthwyd *Y Faner* i wasg y Cambrian News ac erbyn 1935 roedd Gwasg Gee ar werth. Ysgrifennwyd cofiant Thomas Gee gan T. Gwynn Jones.

Morris T. Williams a'i wraig Kate Roberts brynodd Gwasg Gee, er mwyn rhwystro gweisg Lloegr rhag ei phrynu. Yn 1937 cyhoeddwyd *Ffair Gaeaf* Kate Roberts, un o glasuron rhyddiaith Gymraeg, ac yn hwyrach *Y Byw sy'n Cysgu*. Cyhoeddwyd gweithiau Saunders Lewis, D. J. Williams, Lewis Valentine, Gwilym R. Jones a Mathonwy Hughes. Prynwyd *Y Faner* nôl o'r Cambrian News, a dechreuwyd ei hargraffu ym mis Ionawr 1939. Cododd cylchrediad y papur o 1,500 o gopiau yr wythnos i 3,700 oherwydd colofn wythnosol Saunders Lewis, 'Cwrs y Byd'. Ar ôl marwolaeth Morris Williams, ymdrechodd Kate Roberts i barhau â'r cyhoeddi, er gwaethaf dyledion. Cyhoeddodd *Blodeuwedd* Saunders Lewis, *Y Gwin a Cherddi Eraill* I.D.Hooson a'i *Stryd y Glep* ei hun. Roedd 1953-1954 yn flynyddoedd o bryder mawr iddi, wrth dalu'r ddyled nôl bob mis, ac yn 1955 gwerthwyd y Wasg i grŵp o bobl o dan arweiniad Emlyn Hooson, a ddatblygodd y Wasg i fod yn Gwmni. Gwerthwyd *y Faner* i Wasg y Cyfnod am un gini. Emlyn Evans o Fethesda oedd yn gyfrifol am y Wasg o 1978 ymlaen. Roedd ei gyfraniad i'r Wasg yn gynhyrchiol, ond pan ymddeolodd yn 2001 daeth y Wasg i ben. Ysgrifennodd gyfrol i goffáu Gwasg Gee, *O'r Niwl a'r Anialwch*, a cheisiodd yn aflwyddiannus i



gael cefnogaeth i droi'r adeilad yn Amgueddfa Argraffu.

Gorffennodd Dr. D. Ben Rees ei ddarlith drwy annog Undeb Cyhoeddwyr Cymru i addasu'r adeilad i fod yn Amgueddfa Argraffu yng Nghymru.

Os ydych am wrando ar y ddarlith, edrychwch am **Hanes Gwasg Gee** ar Youtube.

**Patagonia**



O Ionawr 1af 1945 tan Rhagfyr 31ain 1946, fel rhan o'r arlwy ar gyfer America Ladin, bu'r BBC yn darlledu yn Gymraeg ar radio tonfedd fer i Batagonia. Tybed a oes gan unrhyw un fwy o fanylion am hyn, os gwelwch yn dda? Os oes, cysylltwch â gwybod@gwefrhebwifrau.cymru

CATalyst Systems - 01745 816611
Cymraeg
enquiries@catsystems.co.uk

Cyfrifaduron a Gliniadur (Trwsio a Gwerthu)
Sganwyr llaw - Systemau CCTV
Lloeren a hwb ar systemau rhyngrwyd 4G
Wi-Fi Adeilad i Adeilad www.catsatwales.co.uk
Unit 15B Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA

**.O'r casgliad**

Roedd Gordon Russell yn ddylunydd dodrefn 'Modernaidd' yn yr ugeinfed ganrif a gynhyrchodd lawer o ddodrefn arloesol. Yn 1930, pan oedd ei gwmni mewn trafferth ariannol, daeth perchennog Murphy Radio ato a gofyn iddo ddylunio cabinetau ar gyfer ei setiau radio; roedd Frank Murphy yn edmygydd o ddodrefn Gordon Russell. Dros yr ugain mlynedd nesaf, cynhyrchodd Gordon Russell 70 o ddyluniadau cabinetau radio i Frank Murphy a chyflogodd tua 1,000 o weithwyr. Mae gan Amgueddfa *Gwefr heb Wifrau* dri o ddyluniadau Gordon Russell, yr AD94 a'r A98 gan Eden Minns un o'r gweithwyr, a'r radio baffl A146 a ddyluniwyd gan Richard Russell, brawd iau Gordon.



Radio Murphy A98



Radio Murphy A146



Radio Murphy AD94



Amgueddfa Syr Henry Jones

## Digwyddiadau'r dyfodol

Ar Chwefror 24ain, bydd Ann Vaughan yn cyflwyno ein darlith arlein Gymraeg nesaf am **Amgueddfa Syr Henry Jones**. Ganwyd Henry Jones yn Llangernyw yn 1852 i gefndir tlawd. Gweithiodd fel crydd gyda'i dad yn ystod y dydd a 'gyda'i lyfrau… tan berfeddion a thoriad gwawr'. Enillodd ysgoloriaeth i hyfforddi fel athro yn Y Coleg Normal, Bangor, a bu'n dysgu yn Ne Cymru a darlithio yn Aberystwyth a Bangor, cyn symud i Brifysgol Glasgow fel Athro Athroniaeth Foesol. Ni wnaeth anghofio ei wreiddiau gwerinol a gweithiodd yn ddygn i wella'r system addysg yng Nghymru, gan sefydlu ysgolion uwchradd bedair blynedd ar ddeg o flaen Lloegr. Agorwyd Amgueddfa yn ei hen gartref yn 1934 gan y Prif Weinidog, David Lloyd George, cyfaill iddo.

Mae'r ddarlith yn agored i bawb ac yn cychwyn am 7.00 y.h. Ewch i wefan **Cwmulus** neu dudalen Facebook **Gwefr heb Wifrau** i gofrestru. Bydd cyfieithu ar y pryd ar gael i'r rhai sy'n dymuno hynny.

**Ymweld â'r Amgueddfa**


Yn ystod y gaeaf, pan fydd yr Amgueddfa ar gau, mae'n bosib trefnu apwyntiad i ymweld â'r Amgueddfa ar unrhyw adeg. Cysylltwch â gwybod@gwefrhebwifrau.cymru

Croeso cynnes i bawb.

Y BIGWN

YN EISIAU!

Aelodau newydd i ymuno â thîm golygyddol bychan Y Bigwn, i ddechrau o fis Hydref 2022.
Oes ganddoch chi ddiddordeb mewn hanesion a chymeriadau lleol?
Ydych chi eisiau cyfrannu mwy i'r gymuned leol?
Ydych chi awydd sialens newydd?
Os ydi'r ymateb yn bositif i unrhyw un o'r cwestiynau hyn, cysylltwch â ni yn Y Bigwn am fwy o wybodaeth.
Ebost – gwybod@ybigwn.cymru neu ybigwn@hotmail.co.uk
Stan Lyall (01745 813659) neu
Sian Rogers (01745 813368)



MODURON Y GRAIG
Gorsaf Profion M.O.T.
(dosbarthiadau 3,4 a 7)
Atgyweirio ceir a thractorau
Iard y Graig, Ffordd y Graig,
Ffôn:01745 815606
550337 / 550512(cartref)

CLWB PÊL-DROED DINBYCH

Derbyniodd y Clwb newyddion arbennig ar ddechrau'r flwyddyn, sef bod yr Adran Iau wedi derbyn Statws Archediad Platinwm gan yr FAW. Mae hwn yn glod anhygoel i'r Pwyllgor a hyfforddwyr yr Adran Iau, ac mae cymaint o waith caled wedi bod yn mynd ymlaen oddi ar y cae er mwyn cyrraedd y statws hwn. Mae dyfodol y Clwb mewn dwylo arbennig wrth i ni symud ymlaen yn 2023. Llongyfarchiadau mawr i bawb fu'n rhan o hyn.

Mae Tîm Cyntaf Dinbych wedi cael mis arbennig o goliau ym Mharc Canolog yn ddiweddar. Yn eu tair gêm ddiwethaf gartref, maen nhw wedi sgorio 19 o goliau wrth iddyn nhw barhau ar eu taith i gael dyrchafiad o Gynghrair Lockstock Ardal Gogledd Ddwyrain.

Mae'r rheolwr Dewi Llion Jones wedi cryfhau ei garfan yn ystod y ffenestr trosglwyddo ym mis Ionawr gyda phedwar arwyddiad newydd. Mae'r blaenwr Matthew Worrall wedi ail ymuno gyda'r tîm o Llay Welfare. Fe brofodd Worrall ei hun fel sgoriwr arbennig i'r tîm yn ystod ei amser gyda Dinbych yn nhymor 2017-18.

Hefyd yn dychwelyd i'r Clwb mae Craig Pritchard, oedd hefyd yn rhan o dîm 2017-18. Pritchard oedd chwaraewr y tymor y flwyddyn honno ac yn ffefryn ymysg y cefnogwyr gyda'i sgiliau a'i allu i sgorio goliau hanfodol.

Mae'r brodyr Bennett, Luca a Harvey wedi arwyddo hefyd. Roedd Luca, sy'n 19 oed yn chwarae i Brestatyn y tymor diwethaf ac mae'n chwaraewr canol cae talentog. Mae ei frawd, Harvey, sy'n 16 oed yn chwaraewr canol cae profiadol sydd wedi bod gyda sawl clwb proffesiynol dros y blynyddoedd.

Dechreuwyd y mis gyda buddugoliaeth 2 -0 dros Landudno Albion gyda goliau gan Nathan Brown a Sion Jones. Wythnos yn ddiweddarach a 9-1 yn erbyn Brickfield Rangers. Sgoriodd Nathan Brown dair, dwy i Jake Walker, un yr un i Ben Lockley a Sion Jones a dwy gôl gan y gwrthwynebwyr.

Ar noson Wener rewllyd ym Mharc Canolog, Felinheli oedd eu gwrthwynebwyr, ond Dinbych oedd y buddugwyr o 8-0. Matthew Worrall yr arwyddiad newydd sgoriodd dair, gyda Craig Pritchard, Harvey Bennett, Ben Lockley, Dan Parry-Jones a Jason Foulkes yn sgorio un yr un. Mae'r buddugoliaethau diweddar wedi symud Dinbych i'r pedwerydd safle yn y gynghrair gyda gemau mewn llaw dros y timau uwch eu pennau hefyd.

Dim ond un gêm mae'r Ail Dîm wedi chwarae dan arweiniad newydd Liam Nash. Buddugoliaeth o 3-2 oedd homno yn erbyn Dyffryn Nantlle, sy'n yr ail safle. Sgoriodd yr arwyddiad newydd Harvey Bennett dair gôl ar ei ymddangosiad cyntaf i roi dechrau gwych i yrfa Nash fel rheolwr.

O ganlyniad i'r tywydd gwael, dydi'r Tîm Merched ddim wedi chwarae ers diwedd mis Tachwedd. Mae ganddyn nhw fis prysur o gemau o'u blaenau ym mis Chwefror.

Mae criw o wirfoddolwyr y Clwb wedi gweithio'n ddiwyd yn ystod diwrnod gemau diweddar er mwyn sicrhau bod y caeau mewn cyflwr da yn ystod yr eira a'r rhew. Cafodd gemau lleol eraill eu gohirio funud olaf a rhaid cydnabod felly gwaith caled y gwirfoddolwyr i sicrhau fod y gemau'n gallu parhau i gael eu chwarae. Os hoffech helpu yn y dyfodol, cysylltwch ag Iwan Jones ar 07788627819.

CRD
CLWB RYGBI DINBYCH

**Clwb Rygbi Dinbych yn falch o weld ddigwyddiad Gŵyl San Steffan yn dychwelyd ar ôl y Pandemig.**

Hir yw pob ymaros, ac ar ôl tair blynedd roedd Clwb Rygbi Dinbych yn falch o groesawu chwaraewyr a chefnogwyr i'r clwb ar Wŷl San Steffan i wylio ein gêm gwisg ffansi flynyddol. Braf oedd gweld y clwb yn orlawn gyda wynebau hen a newydd. Roedd pawb wedi mwynhau gwylio'r gêm yn enwedig gwylio'r PowerPuff Girls yn taclo Iwan Ffrith yr Elf! Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi ein digwyddiad, a diolch yn arbennig i un o noddwyr y clwb, Henllan Bread, am gyfrannu 100 o fins peis i'r digwyddiad.

**Gemau'r Chwe Gwlad**
Dewch draw i Glwb Rygbi Dinbych i wylio pob un o gemau Chwe Gwlad Cymru.

Croeso cynnes i bawb ddod i fwynhau pencampwriaeth gorau'r byd rygbi ar y sgriniau mawr yng Nghlwb Rygbi Dinbych.

MEIRION DAVIES A'I GWMNI
01745 812400
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych
* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Teganau plant - a llawer rhagor

CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones

Emyr Evans a'i Gwmni Cyf
Uned 9, Stad ddiwydiannol Colomendy, Dinbych 01745 812333

Stad Ddiwydiannol Gaerwen 01248 421900

Darnau ar gael ar gyfer pob math o beiriannau fferm, Pibellau Hydrolic, Olew a Gwrthrew
e-bost:info@emyrevans.co.uk
JCB M-Hale Massey Ferguson Fendt Pöttinger

# Clwb Rygbi Dinbych





Iwan Ffrith Roberts yn haeddu mins pei ar ôl y gêm



Jane Jones, arlwywr newydd Clwb Rygbi Dinbych



Thomas a Robert Schrimshaw yn edrych yn ddel yn eu ffrogiau PowerPuffs, a Gavin Rizzi wedi ei wisgo fel Mojo Jojo.









Gwobr yr Adran Iau



Un o'n gwirfoddolwyr, Chloe Thomas, oedd enillydd y rhaffl yn ystod y gêm yn erbyn CPD Y Felinheli. Mae ei thaid, Owen Thomas, wedi bod yn gwerthu tocynnau raffl ers dros 30 o flynyddoedd i'r Clwb ac mae'r ddau yn aelodau gwerthfawr o'n tîm o wirfoddolwyr.



Billy Holmes, canolwr cae Dinbych yn chwarae yn erbyn CPD Y Felinheli



Nathan Bown yn dathlu tair gôl yn erbyn Brickfield Rangers.

## Cacen Melfed moethus



## Cynhwysion

Sbwng

300 ml Olew llysiau
500g o flawd plaen
2 llwy fwyrdd o bowdr cocoa
4 llwy de o bicarb
560g o siwgr brown
1 llwy de o halen mân
400 ml o laeth enwyn
4 llwy de o fanila
1 llwy de  past lliw coch
4 wy

## Eisin

250g o fenyn
750g o siwgr eisin
350g o gaws hufen
1 llwy de o fanila
Llefrith

## Dull

1. Cynheswch dymheredd y popty i 160 ẃc. Irwch y 2/3 tin a'i leinio gyda phapur parchment.
2. Chwisgiwch yr olew, llaeth enwyn, fanila, wyau, lliw coch yn y bowlen gymysgu.
3. Ychwanegwch yr holl gynhwysion sych i'r cymysgedd gwlyb.
4. Cymysgwch yn ofalus.
5. Arllwyswch y cymysgedd i'r tiniau a'i goginio am 25-30 munud.
6. Er mwyn creu'r eisin chwipiwch y menyn mewn powlen gyda chymygydd trydan a'r gyflymder uchel nes eu bod yn hufennog ac ysgafn ac wedi dyblu mewn maint. Wedyn ychwanegwch y caws hufen a'i gymysgu yn ofalus.
7. Ychwanegwch hanner y siwgr eisin gan gymysgu yn ofalus.
8. Ychwanegwch weddill y siwgr eisin a'r fanila ac ychwanegu y llefrith llwyaid ar y tro am gyfnod (2 munud) ar gyflymder uchel nes ei fod yn welw mewn lliw .
9. Wedi i'r gacen oeri defnyddiwch baled er mwyn addurno'r gacen.

TE YN Y GRUG
Ty Te a Delicatessen

# Cornel y Plant

Y BIGWN


## Bandiau Cymraeg


| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| c | a | d | n | o | f | m | h | i | j | rh | l |
| a | n | o | p | ll | r | a | t | u | ng | w | dd |
| n | a | a | b | y | s | g | o | l | s | u | l |
| d | l | m | n | o | p | i | c | s | t | u | ng |
| e | dd | g | ch | a | b | t | a | e | f | g | a |
| l | j | o | l | m | n | u | l | ll | f | s | r |
| a | ng | l | dd | y | ch | d | a | c | r | e | i |
| s | h | e | j | rh | l | u | n | o | a | ll | e |
| s | w | n | a | m | i | r | ch | a | c | c | r |
| e | f | a | h | i | j | rh | l | m | a | o | y |
| ll | r | s | a | r | g | r | p | h | s | a | b |
| g | r | u | f | f | r | h | y | s | l | m | n |

Candelas
Yr Eira
Gruff Rhys
Swnami
Ysgol Sul
Magi tudur
Argrph
Cadno
Ffracas
Anelog
Calan

## Dylunio Crys Y Chwe Gwlad

Gan ddefnyddio lliwiau baner eich gwlad, ellwch chi ddylunio crys newydd i'r chwaraewyr wisgo yn Mhencamopwriaeth Y Chwe Gwlad?





## Ffeil o Ffeithiau am Fand Cymraeg

Enw:

Aelodau:



Ychwanegwch lun o'r band yma:

O ble?

Genre:


Caneuon:


Fy hoff gân gan y band:

Ffeithiau diddorol:

## Cwis Ciao Corona Wythnos 2
## Caneuon Cymraeg mewn Emojis

Danfonwch eich atebion drwy neges breifat ar dudalenCiao Corona ar Facebook






J&G Jones & Graham
CYFRIFWYR | ACCOUNTANTS

Gyda dros 40 mlynedd o brofiad mewn darparu gwasanaeth cyfrifeg ariannol ledled Gogledd Cymru. Mae ein holl wasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cynnwys y canlynol:

- Dechrau busnes
- Cwmniau Cyfyngedig
- Cyflogau
- Cyngor treth
- Hunan asesiad
- Cadw llyfrau
- Cynllunio treth
- TAW

CYFARFOD CYNTAF YN RHAD AC AM DDIM

45 Stryd y Dyffryn, Dinbych, Sir Ddinbych, LL16 3AH
01745 816321
office@jonesandgraham.co.uk
www.jonesandgraham.co.uk
ACCA
Cymraeg

CYFREITHWYR
SwayneJohnson
SOLICITORS

**Gwasanaethau i Chi**

- Trawsgludo – Symud Tŷ a Materion Eiddo Preswyl
- Landlord a Thenant
- Cyfraith Teulu
- Ewyllysiau, Ymddiriedolaethau ac Ystadau
- Llys Gwarchod a Phwerau Atwrnai
- Cynllunio Ffioedd Cartrefi Gofal
- Cynllunio Treth
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Cyfreitha Sifil, Anghydfodau ac Hawliadau
- Cyfraith Cyflogaeth

**Gwasanaethau ar gyfer eich Busnes**

- Cyfraith Amaethyddol
- Ffurfiant Busnes a Chwmnïau a Corffori
- Strwythurau Busnes a Phartneriaethau
- Eiddo Masnachol – prynu a gwerthu
- Cyfraith Cyflogaeth
- Eiddo Deallusol
- Cartrefi Gofal
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Diwydiant Hamdden – Parciau Gwyliau a Carafanau, Gwestai a Cyfraith Trwyddedau

2 Sgwâr y Neuadd, Dinbych, LL16 3PA
01745 812835
www.swaynejohnson.com cyfraith@swaynejohnson.com

**Y Cyfreithwyr Arbenigol yng Nghalon eich Cymuned**

Hefyd yn Rhuthun, Llanelwy, Llandudno, Bangor a Tattenhall